# Caban Y Faenol CYF

## Anghenion Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Caban Y Faenol yn ymwybodol bod gan rai plant anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol sydd angen cefnogaeth a chymorth arbennig. Rydym wedi ymrwymo i gymryd camau priodol i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn gallu cael mynediad i'n gwasanaethau, yn cael eu croesawu, a bod ein gweithgareddau yn hybu eu lles a'u datblygiad.

Rydym yn gefnogwyr cadarn i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac wedi ysgrifennu'r polisi hwn i sicrhau ein bod yn parchu ac yn cynnal egwyddorion y Confensiwn. Mae'r polisi hwn yn ymwneud yn arbennig â'r erthyglau canlynol o'r confensiwn:

**Erthygl 2** - Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag fo'i gefndir teuluol.

**Erthygl 15** - Mae gan bob plentyn yr hawl i gyfarfod â phlant eraill ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, cyn belled nad yw hyn yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

**Erthygl 23** - Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyn belled ag y bo modd, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Mae Caban Y Faenol wedi ymrwymo i integreiddio pob plentyn yn ei ofal. Credwn hefyd fod gan blant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol yr hawl i chwarae, dysgu a gallu datblygu i'w llawn botensial ochr yn ochr â phlant eraill. Lle bynnag y bo modd, bydd gan blant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol fynediad i'r un cyfleusterau, gweithgareddau a chyfleoedd chwarae â'u cyfoedion. Bydd pawb ar eu hennill os yw pob plentyn yn cael rhannu'r un cyfleoedd ac yn cael cymorth i oresgyn unrhyw anfanteision y gallent eu hwynebu.

Mae polisïau, gweithdrefnau ac arferion y lleoliad mewn perthynas â phlant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol yn gyson â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau 2001 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Mae Caban y Faenol o'r farn y dylai pob plentyn allu chwarae rhan lawn, weithgar a chyfartal yng ngweithgareddau'r lleoliad trwy nodi anghenion unigolion a chymryd

camau rhagweithiol ochr yn ochr â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau statudol eraill.

### Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd

Bydd y rheolwr yn penodi aelod o staff yn Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau i reoli'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol. Bydd yr unigolyn hwn wedi'i hyfforddi'n llawn ac yn brofiadol ym maes gofal ac asesu plant o'r fath.

Bydd disgwyl i bob aelod o staff gynorthwyo'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau i ofalu am blant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol. Bydd cyfrifoldebau'r Cydlynydd yn cynnwys:

- Gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr i sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o ddeddfwriaeth, rheoliadau, a chanllawiau eraill ar weithio gyda phlant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol.
- Gweithio gyda'r Rheolwr i sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant o'r fath sgiliau a hyfforddiant priodol.
- Cydlynu monitro ac adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant: cynnwys rhieni/gofalwyr, aelodau eraill o staff, cynrychiolwyr perthnasol o asiantaethau statudol, ac, os yw'n briodol, y plentyn ei hun. Ochr yn ochr â'r Rheolwr, byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu yn dilyn adolygiadau o'r fath yn cael eu gweithredu.
- Asesu anghenion penodol pob plentyn ac addasu cyfleusterau, gweithdrefnau, arferion a gweithgareddau'r lleoliad fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod systemau yn eu lle i gynllunio, gweithredu, monitro, adolygu a gwerthuso'r Polisi Anghenion Dysgu Arbennig/Ychwanegol yn ddigonol.
- Sicrhau bod plant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio a pharatoi gweithgareddau.
- Cydgysylltu â rhieni/gofalwyr ynghylch anghenion eu plant a chynlluniau a gweithredoedd y lleoliad, yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt i rieni/gofalwyr.
- Cydgysylltu ag asiantaethau eraill a cheisio cyngor, cymorth a hyfforddiant iddynt hwy eu hunain a staff eraill os oes angen.
- Cefnogi aelodau eraill o staff i ddod yn fwy medrus a phrofiadol wrth ofalu am blant ag anghenion dysgu arbennig/ychwanegol a/neu anableddau corfforol.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei drin gyda'r un gofal a pharch ac yn cael eu hannog i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau.
- Sicrhau bod arsylwadau ac asesiadau cywir o gynnydd plant yn cael eu gwneud yn rheolaidd a'u cofnodi'n gywir.